# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-20-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 27 Mehefin 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Janice Gregory, Jeff Cuthbert, Ann Jones

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-19-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, symudodd y Cadeirydd yn syth at drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1308 – Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nodwyd llawer o fân bwyntiau o dan Reol Sefydlog 11 mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ond gan fod yr Offeryn Statudol hwn wedi'i wneud o dan y Weithdrefn Weithredol nid oes unrhyw ffordd o'i gywiro ac eithrio trwy ddeddfwriaeth ddiwygio. Nodwyd ei fod yn anodd i'r Pwyllgor gadarnhau pryd y gwneir y cywiriadau perthnasol. Awgrymwyd efallai y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am fabwysiadu ymagwedd debyg i ymagwedd San Steffan ar ôl 2007, sef cadw cofnod o'r holl gywiriadau sydd angen eu gwneud a sicrhau y cânt eu gweithredu'n flynyddol cyn ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol.

4.2 Gofynnwyd hefyd pam ei fod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn o dan y Weithdrefn Weithredol. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod yn rhaid gwneud yr Offeryn Statudol hwn erbyn y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth sylfaenol gysylltiedig i rym. Fodd bynnag, mae dal yn aneglur pam na ddechreuwyd drafftio'r Offeryn Statudol hwn yn gynharach er mwyn sicrhau ei fod yn bosibl iddo ddilyn y Weithdrefn Safonol.

4.3 Nodwyd hefyd fod y ddeddfwriaeth sylfaenol y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hi yn rhoi pwerau i Gwnsler Cyffredinol y Cynulliad. Gan nad oes gan y Cynulliad Gwnsler Cyffredinol ar hyn o bryd, holwyd a fyddai'r Rheoliadau hyn yn ddilys. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol y byddai'r rheoliadau'n ddilys, ond na fyddai modd gweithredu'r pwerau hyn cyn cael Cwnsler Cyfreithiol. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.4 LC1310 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol ac Addasiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y Gorchymyn hwn yn gymwys i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y mae ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i fod yn gymwys i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4.5 Nodwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn Gorff y Goron ar hyn o bryd ac y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn Gorff y Goron ar ôl 2007. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol y gallai'r Cynulliad gael ei ddynodi fel Corff y Goron at ddibenion penodol ar ôl 2007. Gwneir hyn drwy orchymyn a gaiff ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ystyried y mater ar hyn o bryd a chaiff ei ystyried gan Gomisiwn Cysgodol y Cynulliad maes o law. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.6 LC1329 – Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor. Holwyd pam bod y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch penodol mewn tri sefydliad penodol yn unig. Addawodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol ymchwilio i hyn. Cam i'w gymryd: Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol/Clerc. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.7 LC1331 - Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006

Nodwyd bod y Gorchymyn hwn yn dynodi Conwy yn ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig a holwyd wedyn a yw Sir Ddinbych hefyd yn ardal barcio a ganiateir/ardal barcio arbennig. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod angen i'r awdurdodau lleol wneud cais; gwnaed cais gan awdurdod lleol Conwy ond nid oes ganddo wybodaeth mewn perthynas â Sir Ddinbych. Addawodd y Clerc y byddai'n ymchwilio i'r mater. Cam i'w gymryd: Clerc

Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.8 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

LC1309 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Sylweddau Peryglus) (Diwygiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006

LC1323 – Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

LC1324 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1325 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

LC1326 – Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1328 – Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) (Cymru) 2006

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 29

5.1 LC1333 - Meini Prawf ar Gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol yr Aelodau ei bod am newid ei hadroddiad i ganiatáu ar gyfer mân wall ddrafftio i’w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Cytunodd yr Aelodau, gyda’r cywiriad hwn, y dylid llunio’r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol. Cam i’w gymryd: Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol/Clerc

5.2 Mewn perthynas â’r ddeddfwriaeth ganlynol, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio’r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

LC1327 – Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf 2006

LC1332 - Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006

## Camau i’w cymryd

4.6 Gofynnwyd i’r Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol esbonio pam bod LC1329 - Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006 yn dwyn perthynas â rhai sefydliadau penodol.

4.7 Gofynnwyd i’r Clerc ddarganfod a yw Sir Ddinbych, fel Conwy, wedi’i dynodi yn ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig.

5.1 Mae’r Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol yn mynd i newid ei hadroddiad ar LC1333 – "Meini Prawf Ar Gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006" i ganiatáu ar gyfer mân wall ddrafftio a gaiff ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2006.